TYMOR NYTHU ADAR – STAFF RhCT.

YN GYFFREDINOL, RYDYN NI'N TYBIO BOD Y TYMOR NYTHU ADAR YN DECHRAU YM MIS MAWRTH AC YN PARHAU TAN FIS AWST. MAE BRON POB MATH O ADERYN SY'N NYTHU YN CAEL EI AMDDIFFYN GAN Y GYFRAITH. GALL ADAR NYTHU MEWN TYLLAU SYDD MEWN COED, ADEILADU NYTHOD MEWN COED NEU BRYSGWYDD, NEU WNEUD NYTHOD MEWN ADEILADAU, STRWYTHURAU NEU WALIAU.

YN YSTOD Y CYFNOD YMA MAE RHAID CYMRYD POB RHAGOFAL RHESYMOL I BEIDIO AG AMHARU AR ADAR SY'N NYTHU. MAE HYN YN CYNNWYS NYTHOD SYDD WRTHI'N CAEL EU HADEILADU, NYTHOD WEDI'U CWBLHAU A NYTHOD GYDAG WYAU NEU ADAR IFAINC YNDDYN NHW.

MAE HEN NYTHOD O FLYNYDDOEDD BLAENOROL NEU NYTHOD PAN MAE'R ADAR IFAINC WEDI'U GADAEL HEB EU GWARCHOD.

CYN CYNNAL GWAITH, BWRIWCH OLWG AR YR ARDAL SYDD I'W RHEOLI A NODI PRESENOLDEB UNRHYW ADAR SY'N YMDDANGOS YN GYTHRYBLUS NEU'N AFLONYDD. OS BYDD ADAR YN HEDFAN YN ÔL AC YMLAEN I'R UN ARDAL AC YN GALW MEWN TRALLOD, EFALLAI BOD YNO NYTH.

OS BYDD RHYWUN YN CANFOD NYTH YN YSTOD Y GWAITH RHEOLI, BYDD YN RHAID DOD Â'R GWAITH YN YR ARDAL HONNO I BEN A SICRHAU BOD Y NYTH YN DDIOGEL A RHOI GWYBOD I'R CYNGOR AMDANO.

OS OES ANGEN CLIRIO ARDALOEDD MAWR IAWN O GOED, PRYSGWYDD, FIERI NEU IORWG, RYDYN NI'N EICH CYNGHORI CHI I'W GADAEL NHW TAN AR ÔL Y TYMOR NYTHU A GWNEUD Y GWAITH RHWNG MIS MEDI A MIS IONAWR PAN NA FYDD ADAR YN NYTHU. OS OES ANGEN GWAITH SYLWEDDOL MEWN AMGYLCHIADAU O'R FATH YSTYRIWCH A OES ANGEN AROLWG ADAR SY'N NYTHU.